

“ Mae cofrestriadau lloi ar draws Prydain Fawr wedi gostwng yn sylweddol yn hanner cyntaf 2024 yn ôl ffigyrau sydd newydd eu rhyddhau gan BCMS. Wrth i niferoedd y gwartheg mewn ystod oedran allweddol ostwng, gallai'r rhagolygon ar gyfer cynhyrchiant cig eidion dynhau, gan godi pryderon am sefydlogrwydd y farchnad yn y dyfodol. ”

**Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**



Yn ystod chwe mis cyntaf 2024, gwelwyd gostyngiad o 4% yng nghyfanswm cofrestriadau genedigaethau lloi cyffredinol yng Nghymru o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn yn ôl. Mae data diweddar gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) yn dangos bod bron i 213,200 o loi wedi'u cofrestru yn hanner cyntaf 2024 (H1), gostyngiad o dros 10,000 o loi flwyddyn ar flwyddyn. Dyma'r nifer isaf o gofrestrïadau lloi a gofnodwyd yng Nghymru yn ystod H1 mewn sawl blwyddyn, yn dilyn uchafbwynt o bron i 230,000 pen yn 2021. Mae'r dirywiad hwn yn adlewyrchu tueddiadau ar draws Prydain Fawr (GB), gyda chyfanswm cofrestriadau lloi yn yr Alban i lawr 2% a'r rhai yn Lloegr yn profi gostyngiad o 4%.

Ar yr ochr **llaeth**, mae cofrestriadau lloi llaeth benywaidd yng Nghymru yn ystod H1 2024 **wedi gostwng 6%** o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, tra bod nifer y lloi llaeth gwrywaidd wedi gostwng 14%, gan arwain at ostyngiad cyffredinol o 8% (neu bron i 5,100 pen). Mae nifer y lloi llaeth gwrywaidd wedi bod yn gostwng ers peth amser, bellach yn cyfrif am ddim ond 7% o gyfanswm y cofrestriadau yn ystod H1, i lawr o 11% yn 2021. Wrth archwilio cyfran y lloi benywaidd yn erbyn lloi gwrywaidd, roedd lloi gwrywaidd yn cyfrif am 37% o'r cofrestriadau llaeth yn 2021, ond mae'r ffigur hwn wedi gostwng i ddim ond 28% yn 2024.

Gan droi at **gofrestriadau lloi cig eidion**, roedd y cyfanswmi lawr 3% (neu 4,600 pen) flwyddyn ar flwyddyn, i bron i 158,100 pen. Mae hyn hefyd 2% yn is na'r lefelau a gofnodwyd yn ystod H1 2022 a dyma'r ffigur isaf ers 2019. Gwelodd cofrestriadau lloi cig eidion

benywaidd a gwrywaidd ostyngiad o 3% flwyddyn ar flwyddyn, tra bod y dosbarthiad rhywedd yn parhau'n gymharol sefydlog. Roedd cofrestriadau cig eidion yn cynnwys 74% o gyfanswm cofrestriadau lloi yng Nghymru yn ystod H1, i fyny o 70% yn 2021. Gallai'r newid hwn yn y cydbwysedd rhwng llaeth a chig eidion o fewn buches Cymru newid cyflenwad cig eidion yn y dyfodol os bydd y duedd hon yn parhau.

Mae nifer y lloi a allai fod ar gael ar gyfer **cynhyrchu cig eidion** (gan gynnwys lloi llaeth gwrywaidd a lloi cig eidion o'r ddau ryw) wedi gostwng i'w lefel isaf ers sawl blwyddyn, sef 173,600 pen. Er y bydd rhai o'r lloi cig eidion benywaidd yn cael eu cadw fel anifeiliaid magu cyfnewid yn y fuches, mae'r ffigur hwn yn **4% yn is** (neu 7,400 pen) na'r nifer oedd ar gael yn ystod H1 2023, ac mae'n debygol y bydd yn arwain at oblygiadau sylweddol ar gyfer dyfodol cyflenwad cig eidion yng Nghymru.

### Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?


Mae'r dirywiad mewn cofrestriadau lloi yn ystod dechrau 2024 yn arwydd o gyflenwad gwartheg sy'n crebachu, a allai beryglu'r màs critigol sydd ei angen ar gyfer cynhyrchiant cig eidion cynaliadwy. Gall y gostyngiad hwn dynhau cyflenwadau cig eidion a herio sefydlogrwydd diwydiant cig eidion Cymru yn y dyfodol.

## DARLUN EHANGACH AR DRAWS PRYDAIN

Gostyngodd cyfanswm cofrestriadau lloi ym Mhrydain yn ystod hanner cyntaf 2024 3% (bron 50,000 pen) flwyddyn ar flwyddyn, gan gyrraedd 1.48 miliwn pen. Cafodd y gostyngiad hwn ei sbarduno'n bennaf gan ostyngiad mewn cofrestriadau cig eidion, i lawr o bron i 20,300 o ben, tra bod cofrestriadau cig eidion benywaidd wedi gostwng 18,000 pen. Ar y cyfan, gostyngodd cofrestriadau lloi cig eidion 3%. Gostyngodd cofrestriadau lloi llaeth ar draws Prydain hefyd i 4%, gyda lloi llaeth benywaidd yn gostwng 2,000 pen a lloi llaeth gwrywaidd yn gostwng 9,600 pen. Yn debyg i'r duedd a welwyd yng Nghymru, roedd nifer y lloi a allai fod ar gael ar gyfer cynhyrchu cig eidion yn y dyfodol i lawr o 4%, gan nodi cyflenwad tynn posibl os yw'r cofrestriadau'n parhau'n isel yn ail hanner y flwyddyn.

Mae cyfansoddiad buchesi yn amrywio ar draws Prydain, gyda'r Alban yn magu gwartheg cig eidion yn bennaf, gan gyfrif am bron i 90% o gyfanswm y cofrestriadau, tra bod Cymru a Lloegr yn magu buchesi tebyg, gyda lloi cig eidion yn cynrychioli tua 75% o'r cyfanswm. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, mae symudiadau gwartheg sylweddol rhwng y tair gwlad at ddibenion lladda a phesgi, gan ei gwneud yn bwysig ystyried buches wartheg gyffredinol Prydain. Yn ôl y data BCMS diweddaraf ar 1 Gorffennaf 2024, disgwyliar i'r cyflenwad gwartheg tymor byr ledled Prydain aros yn

gymharol sefydlog, gyda nifer y gwartheg 12-30 mis oed i lawr dim ond 0.3% flwyddyn ar flwyddyn. Fodd bynnag, wrth edrych ymlaen, mae nifer y gwartheg yn yr ystod oedran 0-12 mis yn sylweddol is, i lawr 4%, sy'n awgrymu y gellid cyfyngu ar gyflenwad cig eidion ar draws Prydain yn y dyfodol.



# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 17 Awst

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **491.2c/kg**. Roedd hyn:

- + 3.8c ar yr wythnos flaenorol,
- 37.1c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 486.0c / kg (+1.4c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 484.3c / kg (+5.6c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 351.8c / kg (+1.0c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Gorffennaf 2024

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 239,500 pen – cynnydd o 10% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 182,200 pen - i fyny 10% ar y flwyddyn.
  - bustych +9%, heffrod +12%, a theirw ifanc +11%.
- Cyfartaledd pwysau carcassau gwartheg dethol = 346.1kg (+2.4kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 52,000 pen - cynnydd o 10% ar y flwyddyn.

## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn dod i ben 17 Awst

Cyfartaledd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain oedd **664.8c/kg**. Roedd hyn:

- 2.5cc ar yr wythnos flaenorol,
- Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 38,100 pen. Roedd hyn:
- + 0.5% ar yr wythnos flaenorol, a
  - 10% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

**Noder:** Oherwydd newid ym methodoleg arolwg pwysau marw Prydain Fawr (o 25/11/2023) rydym yn argymhell bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau hanesyddol.

### Trwybwn - Gorffennaf 2024

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 891,700 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass ŵyn ar gyfartaledd = 17.6kg (-0.2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 118,700 pen – i lawr 6% ar y flwyddyn.

## MOCH


### Prisiau – diwedd yr wythnos 10 Awst

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn sefyll ar **211.5c/kg**. Roedd hyn:

- + 1.3c ar yr wythnos flaenorol,
- 12.8c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 29.1c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 182.4c/kg).


### Trwybwn - Gorffennaf 2024

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 948,200 pen – cynnydd o 17% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 930,900 pen – cynnydd o 17% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass moch heb fagu cyfartalog = 89.9kg (+1.8kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 17,400 pen – cynnydd o 6% ar y flwyddyn.




**Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU Gorffennaf '24**

80,800 tunnell  
**+12% b-a-f**



**Cynhyrchiant cig defaid y DU Gorffennaf '24**

18,900 tunnell  
**-12% b-a-f**



**Cynhyrchiant porc y DU Gorffennaf '24**

86,300 tunnell  
**+19% b-a-f**

